# Cyfrif Ardrethi Annomestig (Cymru)

# Cyfrif Derbyniadau a Thaliadau 1 Ebrill 2017 i 31 Mawrth 2018

**Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988**

**Paratowyd y cyfrif o dan baragraff 1 o Atodlen 8 i Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988 (c.41)**

# Cyfrif Ardrethi Annomestig (Cymru)

## Cyfrif Derbyniadau a Thaliadau
## 1 Ebrill 2017 i 31 Mawrth 2018

**Tudalen** **Cynnwys**


| Tudalen | Cynnwys |
|---|---|
| Rhagair<br>Cefndir Statudol<br>Adolygiad o 2017-18 | 1–3 |
| Datganiad o Gyfrifoldebau'r Prif Swyddog Cyfrifyddu mewn perthynas â'r Cyfrif | 4 |
| Datganiad Llywodraethiant | 5-8 |
| Tystysgrif ac Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru i Gynulliad Cenedlaethol Cymru | 9-11 |
| Cyfrif Derbyniadau a Thaliadau ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2018 | 12-13 |
| Nodiadau ar y Cyfrif | 14 |

**CYFRIF ARDRETHI ANNOMESTIG (CYMRU)**
**CYFRIF DERBYNIADAU A THALIADAU 2017-18**

**DEDDF CYLLID LLYWODRAETH LEOL 1988**

**CYFUNO ARDRETHI ANNOMESTIG A'U HAILDDOSBARTHU I AWDURDODAU LLEOL A CHOMISIYNWYR HEDDLU A THROSEDDU YNG NGHYMRU**

**Paratowyd y cyfrif o dan Baragraff 1 o Atodlen 8 i Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988 (c.41)**

## RHAGAIR

## CEFNDIR STATUDOL

1. Mae'r Cyfrif am 2017-18 yn dangos:

   a. Symiau a dderbyniwyd gan Weinidogion Cymru yn 2017-18

      i. o dan Adran 54[1] mewn perthynas ag ardrethi annomestig a delir gan dalwyr ardrethi ar y rhestr ardrethi canolog;

      ii. o dan baragraff 5(5)[2] mewn perthynas â swm dros dro ardrethi annomestig sydd i'w casglu yn ôl amcangyfrif Awdurdodau Bilio[3] yn 2017-18;

      iii. o dan baragraff 5(9) mewn perthynas â'r ardrethi ychwanegol a gesglir gan yr Awdurdodau Bilio yn sgil cyfrifo symiau terfynol ardrethi annomestig sy'n ddyledus ar gyfer 2016-17 a'r blynyddoedd blaenorol, ac o'r talwyr ardrethi ar y rhestr ardrethi canolog yn sgil ail-gyfrifo'r symiau sy'n ddyledus; a

   b. taliadau a wnaethpwyd gan Weinidogion Cymru yn 2017-18

      i. o dan baragraff 5(10) mewn perthynas ag ad-dalu i Awdurdodau Bilio gyfraniadau dros ben yn sgil cyfrifo symiau terfynol ardrethi annomestig sy'n ddyledus ar gyfer 2016-17 a'r blynyddoedd blaenorol, ac i dalwyr ardrethi ar y rhestr ardrethi canolog yn sgil ailgyfrifo'r symiau sy'n ddyledus; a

      ii. o dan baragraff 12 mewn perthynas ag ardrethi annomestig sy'n cael eu dosbarthu i Awdurdodau Derbyn yn gyfrannol i'r boblogaeth breswyl o oedolion.

[1] Ac eithrio lle y nodir yn wahanol mae'r holl gyfeiriadau at "adrannau" yn ymwneud â Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988. Diwygiwyd Deddf 1988 yn arbennig gan Atodlen 5 i Ddeddf Llywodraeth Leol a Thai 1989, Atodlen 12 i Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992, Deddf Ardrethi Annomestig 1994 a Deddf Llywodraeth Leol 2003.

[2] Ac eithrio lle y nodir yn wahanol mae'r holl gyfeiriadau at "baragraffau" yn ymwneud â pharagraffau o Atodlen 8 i Ddeddf 1988

[3] "Awdurdodau Bilio" yw Cynghorau Sir a Chynghorau Bwrdeistref Sirol. "Awdurdodau Derbyn" yw Awdurdodau Bilio a Chomisiynwyr Heddlu a Throseddu.

2. Cyfrifon cysylltiedig sy'n ymwneud â'r gwariant hwn yw Cyfrifon Blynyddol Cyfunol Llywodraeth Cymru ar gyfer Gweinidogion Cymru am y cyfnod 1 Ebrill 2017 i 31 Mawrth 2018.

**Cyfuno ac Ailddosbarthu Ardrethi Annomestig**

3. Mae Gweinidogion Cymru yn derbyn ardrethi annomestig sy'n cael eu casglu oddi wrth dalwyr ardrethi gan yr Awdurdodau Bilio neu wedi'u talu'n uniongyrchol i Weinidogion Cymru gan dalwyr ardrethi ar y rhestr ardrethi canolog. Mae'n ofynnol i Weinidogion Cymru ddosbarthu'r cyfraniadau i Awdurdodau Derbyn yn gyfrannol i'r boblogaeth oedolion preswyl (18 oed neu drosodd) ym mhob ardal weinyddol (Adroddiadau Cyllid Llywodraeth Leol 2017-18, Rhifau 1 a 2, Adran 4.1). Mae'r holl ardrethi annomestig felly'n cael eu cyfuno a'u hailddosbarthu. Mae'r ffordd y mae'r pwll yn gweithredu'n cael ei llywodraethu gan Ddeddf 1988 a rheoliadau a wneir o dan adran 141.

4. Bwriedir i symiau y mae eu hangen ar gyfer gwneud taliadau gan Weinidogion Cymru ar gyfer ailddosbarthu ardrethi annomestig gael eu codi ar Gronfa Gyfunol Cymru. Rhaid i dderbyniadau Gweinidogion Cymru o ardrethi annomestig gael eu hildio i Gronfa Gyfunol Cymru (adran 120 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006). Er hynny, er mwyn osgoi trosglwyddiadau arian parod diangen rhwng Llywodraeth Cymru a'r Awdurdodau Bilio, taliadau net yn unig sy'n cael eu gwneud. Mae'r cyfrif yn dangos fel eitemau ar y cyfrif yr holl hawliau a rhwymedigaethau ardrethi annomestig sydd wedi'u talu ac nid dim ond y symiau arian parod a dderbynnir neu a delir allan.

**Derbyniadau oddi wrth yr Awdurdodau Bilio (derbyniadau, llai'r gost casglu)**

5. Cyfraniad Awdurdod Bilio i bwll ardrethi annomestig yw'r swm a fyddai'n daladwy gan y talwyr ardrethi yn ardal yr awdurdod os oedd yr awdurdod yn ymddwyn yn ddiwyd, ar ôl caniatáu ar gyfer rhai didyniadau penodedig (e.e. costau casglu ac adfer). Gwneir cyfrifiad dros dro o'r swm cyn dechrau'r flwyddyn ariannol. Byddai Gweinidogion Cymru yn gwneud eu cyfrifiad eu hunain os ydynt o'r farn bod cyfrifiad awdurdod bilio yn annhebygol o fod wedi'i wneud yn unol â rheoliadau (a wnaed o dan baragraff 4). Caiff Awdurdod Bilio ail-gyfrifo ei gyfraniad dros dro yn ystod y flwyddyn os bydd y swm sy'n daladwy gan dalwyr ardrethi'n gostwng islaw'r trothwy penodedig. Rhaid i Weinidogion Cymru wedyn addasu taliadau'r Awdurdod Bilio yn unol â hynny.

**Addasiadau'r Blynyddoedd Blaenorol**

6. Ar ôl ddiwedd y flwyddyn, rhaid i bob Awdurdod Bilio gyfrifo ei gyfraniad blynyddol, trefnu iddo gael ei archwilio ac anfon copi o'r ffurflen hawlio heb ei harchwilio at Weinidogion Cymru. Mae'r archwilydd a benodir wedyn yn cynnal yr archwiliad ac yn anfon yr hawliad gwreiddiol, wedi'i ardystio a'i archwilio i Weinidogion Cymru. Ar ôl i'r hawliad wedi'i archwilio ddod i law, mae unrhyw addasiadau angenrheidiol yn cael eu gwneud i daliadau'r Awdurdod Bilio i gyd-fynd â'r cyfrifiad, naill ai trwy ad-dalu'r swm a ordalwyd neu fynnu taliadau ychwanegol gan yr awdurdod fel y bo'n briodol. Mae addasiadau'r blynyddoedd blaenorol a ddangosir yn y cyfrif hwn yn ymwneud â 2016-17 a'r

blynyddoedd blaenorol. Bydd addasiadau 2017-18 yn ymddangos yng nghyfrif ardrethi annomestig 2018-19.

7. Mae unrhyw newidiadau olynol i'r swm sy'n daladwy i'r Awdurdod Bilio yn y flwyddyn ariannol berthnasol (a allai ddigwydd er enghraifft oherwydd apeliadau a allai newid gwerthoedd ardrethol ôl-weithredol) yn cael eu trin fel addasiadau'r blynyddoedd blaenorol i gyfraniad y pwll am flwyddyn arall.

**Dosbarthu'r Pwll**

8. Mae swm sy'n cyfateb i amcangyfrif Gweinidogion Cymru o elw ardrethi annomestig yn cael ei ddosbarthu i'r Awdurdodau Derbyn bob blwyddyn. Mae'r swm i'w ddosbarthu'n cael ei gyfrifo gan Weinidogion Cymru cyn dechrau'r flwyddyn ariannol gan ddefnyddio amcangyfrifon o'r eitemau i'w credydu a'u debydu i'r cyfrif yn y flwyddyn. Hwn yw'r swm dosbarthadwy. Mae'n annhebygol y byddai cyfanswm taliadau i'r pwll mewn unrhyw un flwyddyn yn gyfartal yn union i'r swm dosbarthadwy. Mae unrhyw warged neu ddiffyg ar y swm hwn yn cael ei gario ymlaen.

**ADOLYGIAD O 2017-18**

9. Yn 2017-18, cafodd Gweinidogion Cymru £1,060 miliwn o ardrethi annomestig a thalu £1,105 miliwn i'r Awdurdodau Derbyn. Mae'r cyfrif am y flwyddyn yn dangos diffyg cyfraniadau dros symiau a ddosbarthwyd o £44.5 miliwn.

10. Daeth derbyniadau oddi wrth dalwyr ardrethi'r rhestr ganolog yn ystod 2017-18 i gyfanswm o £98.3 miliwn. Talwyd £2.7 miliwn yn ôl i dalwyr ardrethi'r rhestr ganolog yn ystod 2017-18 o ganlyniad i'r gostyngiadau a wnaed gan Asiantaeth y Swyddfa Brisio i werthoedd ardrethol United Utilities Water Ltd a British Telecommunication plc.

11. Mae'r diffyg o £51 miliwn a ddygwyd ymlaen o 2016-17 wedi'i osod yn erbyn cyfanswm y diffyg o £44.5 miliwn ar gyfer 2017-18. Y gwarged a ddygwyd ymlaen ar 31 Mawrth 2018 felly yw £6.5 miliwn. Cymerir y gwarged neu’r diffyg ar ddiwedd pob blwyddyn i ystyriaeth yn y cyfrifiadau ar gyfer y flwyddyn ddilynol, fel bod yr holl symiau a delir i’r pwll ardrethi annomestig yn cael eu hailddosbarthu i’r Awdurdodau Derbyn dros amser.

**Archwilwyr**

12. Mae'r Cyfrif Ardrethi Annomestig yn cael ei archwilio gan Archwilydd Cyffredinol Cymru.

**Shan Morgan**
**Ysgrifennydd Parhaol a Phrif Swyddog Cyfrifyddu**
**Llywodraeth Cymru**

**17 Medi 2018**

**DATGANIAD O GYFRIFOLDEBAU'R SWYDDOG CYFRIFYDDU MEWN PERTHYNAS Â'R CYFRIF**

13. Mae Adran 129(6) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 wedi dynodi'r Ysgrifennydd Parhaol yn Brif Swyddog Cyfrifyddu ar ran Gweinidogion Cymru. Y Prif Swyddog Cyfrifyddu sy'n gyfrifol am drefniadaeth gyffredinol, rheolaeth a staffio Llywodraeth Cymru. Mae hyn yn cynnwys cyfrifoldeb dros systemau ar draws Llywodraeth Cymru ym maes cyllid a materion eraill, lle bo'r rhain yn briodol, a thros reoli gofyniad net Gweinidogion Cymru am arian parod.

14. O dan Atodlen 8 o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988, mae'n ofynnol i Weinidogion Cymru gynhyrchu cyfrif ardrethi annomestig yn unol â chyfarwyddydau a wneir gan Drysorlys Ei Mawrhydi. Y Prif Swyddog Cyfrifyddu sy'n gyfrifol am baratoi a llofnodi'r cyfrif. Mae'n ofynnol i'r cyfrif gyflwyno yn briodol y derbyniadau a'r taliadau am y flwyddyn ariannol a'r gweddill a ddelir ar ddiwedd y flwyddyn.

15. O dan Adran 133 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, caiff y Prif Swyddog Cyfrifyddu ddynodi aelodau eraill o staff Gweinidogion Cymru fel Swyddogion Cyfrifyddu Ychwanegol. Hyd at 29 Medi 2017 dynododd y Prif Swyddog Cyfrifyddu'r Dirprwy Ysgrifennydd Parhaol dros Addysg a Gwasanaethau Cyhoeddus a Chyfarwyddwr Llywodraeth Leol yn Swyddogion Cyfrifyddu Ychwanegol â chyfrifoldeb dros y cyfrif ardrethi annomestig. Yn dilyn ymadawiad y Dirprwy Ysgrifennydd Parhaol, bu’r cyfrifoldeb yn nwylo’r Cyfarwyddwr Llywodraeth Leol hyd nes y cyrhaeddodd y Cyfarwyddwr Cyffredinol newydd dros Addysg a Gwasanaethau Cyhoeddus, a ddynodwyd yn Swyddog Cyfrifyddu Ychwanegol o 12 Ionawr 2018. Nid yw'r dynodiadau hyn yn tynnu oddi wrth gyfrifoldeb cyffredinol yr Ysgrifennydd Parhaol ynghylch y cyfrif ardrethi annomestig fel Prif Swyddog Cyfrifyddu.

16. Mae cyfrifoldebau Swyddog Cyfrifyddu, gan gynnwys y cyfrifoldeb dros briodoldeb a rheoleidd-dra'r arian cyhoeddus y mae'r Swyddog Cyfrifyddu'n atebol amdano, dros gadw cofnodion priodol, dros ddiogelu asedau Llywodraeth Cymru, a thros gymryd camau rhesymol i atal a chanfod twyll ac afreoleidd-dra arall, wedi'u nodi ym Memorandwm y Swyddogion Cyfrifyddu a gyhoeddir gan y Prif Swyddog Cyfrifyddu ar sail canllawiau a gynhyrchir gan Drysorlys Ei Mawrhydi.

17. Nodir y berthynas rhwng y Prif Swyddog Cyfrifyddu a'r Swyddogion Cyfrifyddu Ychwanegol, ym mharagraff 15 uchod, ac fe nodir eu priod gyfrifoldebau mewn cytundeb ysgrifenedig rhwng y swyddogion o dan sylw.

## DATGANIAD LLYWODRAETHIANT 2017-18

### Cwmpas y Cyfrifoldeb

18. Fel Prif Swyddog Cyfrifyddu, rwyf yn gyfrifol am sicrhau bod safon uchel o uniondeb yn y ffordd y rheolir arian cyhoeddus. Wrth gyflawni'r ddyletswydd hon, rwyf yn gyfrifol am gynnal system gadarn o reolaeth fewnol sy'n ategu cyflawni polisïau, nodau ac amcanion Gweinidogion Cymru, sy'n hwyluso arfer swyddogaethau Gweinidogion Cymru yn effeithiol ac sy'n cynnwys trefniadau effeithiol ar gyfer rheoli risg.

19. Bwriedir i'r system rheolaeth fewnol reoli risg i lefel resymol yn hytrach na dileu risg methiant yn llwyr er mwyn cyflawni polisïau, nodau ac amcanion. Ni all felly, ond darparu sicrwydd rhesymol a dim absoliwt o effeithiolrwydd. Seilir y system rheolaeth fewnol ar broses barhaus sydd wedi'i dylunio i nodi a blaenoriaethu'r risgiau i gyflawni polisïau, nodau ac amcanion Llywodraeth Cymru, i werthuso pa mor debygol ydyw y caiff y risgiau hynny eu gwireddu a'r prosesau i'w rheoli yn effeithlon, yn effeithiol ac yn ddarbodus.

20. Roedd y system rheolaeth fewnol mewn grym am y flwyddyn yn dod i ben 31 Mawrth 2018 a hyd at gymeradwyo'r cyfrifon hyn, ac roedd yn cyd-fynd â chanllawiau Trysorlys EM.

### Datganoli Ariannol Ardrethi Annomestig a Chyfrifoldebau'r Gweinidogion.

21. Cafodd ardrethi annomestig eu datganoli yn ariannol i Weinidogion Cymru ar 1 Ebrill 2015. Mae'r refeniw o ardrethi annomestig sydd ar gael i Lywodraeth Cymru bellach yn gysylltiedig yn fwy uniongyrchol â pherfformiad economi Cymru. O Ebrill 2015, daeth ardrethi annomestig yn Wariant a Reolir yn Flynyddol (AME) yng nghyllideb Cymru (gyda gostyngiad o ganlyniad i'r Terfyn Gwariant Adrannol (DEL)).

22. Yn sgil etholiadau'r Cynulliad ym Mai 2016, cafodd y cyfrifoldeb dros ardrethi annomestig ei gydgrynhoi o fewn Llywodraeth Cymru a’i neilltuo i Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol, a ddaeth yn Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid o 3 Tachwedd 2017. Mae ei gyfrifoldebau'n cynnwys polisi cyfraddau, a rheoli’r gyllideb a’r pwll ardrethi annomestig. Mae’r trefniant hwn yn lleihau’r risg y bydd penderfyniadau a wneir mewn un rhan o Lywodreth Cymru yn cael goblygiadau ariannol ar bortffolio arall, o gofio bod y polisi ardrethi annomestig yn berthnasol i nifer o bortffolios.

### Y Fframwaith Risg a Rheolaeth

23. Defnyddir y cyfrif ardrethi annomestig i reoli cydran sylweddol o gyllid Llywodraeth Cymru a ddarperir i Lywodraeth Cymru yng Nghymru, ac yn ogystal ag archwilio'r Cyfrif hwn gan Archwilydd Cyffredinol Cymru, mae'n destun nifer o wiriadau rheoleiddio a rheolaeth fewnol.

24. Seilir symiau dosbarthadwy ardrethi annomestig ar gyfer pob blwyddyn ariannol ar amcangyfrifon o'r swm a gaiff ei gasglu ac fe'u nodir yn Adroddiadau Cyllid Llywodraeth Leol. Mae'r adroddiadau'n gorfod cael eu

cymeradwyo gan y Gweinidogion ac yn cael eu gosod gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Drwy gydol y flwyddyn ariannol, rhaid i Lywodraeth Cymru hefyd wneud addasiadau i'r gofynion deddfwriaethol ar gyfer casglu ardrethi annomestig. Mae'r adroddiadau'n gorfod cael eu cymeradwyo gan y Gweinidogion a rhaid iddynt gael eu gosod gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

25. Mae rheolaethau penodol eraill sy'n gymwys yn cynnwys:

- Cymhwysir symiau dosbarthadwy ardrethi annomestig fel rhan o Gynnig y Gyllideb Derfynol fel tâl uniongyrchol ar Gronfa Gyfunol Cymru. Mae'r symiau'n gyfraniad o bwys i gyllido ariannol Cyllideb Cymru ac, fel y cyfryw, maent yn rhan annatod o'r cynlluniau sy'n gorfod cael eu cymeradwyo gan y Cynulliad Cenedlaethol.

- Darperir yr amcangyfrifon o ardrethi annomestig i'w dosbarthu am y flwyddyn i ddod a rhagolygon ar gyfer blynyddoedd i ddod, ynghyd â nodiadau esboniadol ar ffynonellau a methodoleg, i'r Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol iddi eu hystyried a'u cynnwys yn ei rhagolygon o gyllid cyhoeddus y DU.

- Drwy gydol y flwyddyn ariannol, adroddir ar symiau ardrethi annomestig a gesglir gan Awdurdodau Bilio i Lywodraeth Cymru trwy gyfrwng cyflwyniadau ffurfiol. Mae'r cyflwyniadau hyn, yn benodol ffurflenni ND3R, yn destun archwiliadau a gynhelir gan archwilwyr allanol.

- Mae Incwm a Gwariant sy'n ymwneud ag ardrethi annomestig yn cael eu monitro drwy gydol y flwyddyn ariannol fel rhan o weithdrefnau diwedd y mis a ddefnyddir gan Lywodraeth Cymru.

**Effeithiolrwydd Rheolaeth Fewnol**

26. Fel Prif Swyddog Cyfrifyddu, rwyf yn gyfrifol am effeithiolrwydd y system rheolaeth fewnol. Rwyf yn cymryd sicrwydd gan sbectrwm eang o weithgareddau ac yn cael gwybodaeth drwy waith yr archwilwyr mewnol a hefyd reolwyr gweithredol yn Llywodraeth Cymru sy'n gyfrifol am ddatblygu a chynnal a chadw'r fframwaith rheolaeth fewnol ac am weithredu ar sylwadau a wnaed gan Archwilydd Cyffredinol Cymru yn ei lythyr rheoli ac adroddiadau eraill. Rwyf wedi cael fy nghynghori ar faterion risg a sicrwydd gan y Bwrdd a chan y Pwyllgor Archwilio a Risg.

27. Mae gan Lywodraeth Cymru wasanaeth Archwilio Mewnol sy'n gweithredu yn unol â safonau a ddiffinnir yn Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus. Mae'n cynnal rhaglen o waith archwilio yn seiliedig ar ddadansoddiad o'r prif risgiau sy'n wynebu'r sefydliad drwyddo draw. Am y flwyddyn sy'n cael ei gynnwys gan y Datganiad Llywodraethiant hwn, nid oedd unrhyw ddarnau o waith archwilio a wnaed yn benodol i ardrethi annomestig ond mae'r prosesau a'r gweithdrefnau yn y maes hwn yn bodoli mewn amgylchedd rheoledig sydd wedi bod yn destun archwilio mewnol sydd wedi bod yn effeithiol.

28. Mae'r Pennaeth Archwilio Mewnol yn cyflwyno adroddiadau rheolaidd i Bwyllgor Archwilio a Risg Llywodraeth Cymru ar y cynnydd wrth roi ei chynllun archwilio blynyddol ar waith. Ceir Pwyllgor Archwilio a Risg hefyd ym maes Addysg a Gwasanaethau Cyhoeddus sy'n rhoi sicrwydd i'r Prif Bwyllgor Archwilio a Risg  Mae'r Gwasanaeth Archwilio Mewnol hefyd yn paratoi barn annibynnol flynyddol ar ddigonedd ac effeithiolrwydd y system rheolaeth fewnol. Rwyf yn cyfarfod yn rheolaidd ag aelodau'r gwasanaeth i drafod y gweithgarwch presennol a materion penodol ynghylch  rheolaeth fewnol.

29. Drwy gydol y flwyddyn, parhaodd y Gwasanaeth Archwilio Mewnol i gydgysylltu ei waith â gwaith Swyddfa Archwilio Cymru.  Mae protocol cydweithio yn sail i'r dull gweithredu sy'n cael ei rannu gan yr holl bartïon ac mae cyfarfodydd cysylltu yn cael eu cynnal i rannu gwybodaeth.

30. Ar gyfer y flwyddyn ariannol 2017-18, y  Cyfarwyddwr Cyffredinol dros Addysg a Gwasanaethau Cyhoeddus oedd â'r prif gyfrifoldeb fel Swyddog Cyfrifyddu Ychwanegol dros reoli cyllideb a phwll ardrethi annomestig, gan gynnwys paratoi'r cyfrif hwn.

31. Barn y Pennaeth Archwilio Mewnol, a nodir yn ei hadroddiad sicrwydd blynyddol, yw y gall Llywodraeth Cymru gymryd sicrwydd rhesymol bod y trefniadau i sicrhau llywodraethiant, rheoli risg a rheolaeth fewnol, o fewn y meysydd a adolygir, wedi'u cynllunio'n addas ac yn cael eu rhoi ar waith yn effeithiol.

32. Gan dynnu ar waith y Pwyllgor Archwilio a Risg, dros y flwyddyn, rhoes Adroddiad Blynyddol y Cadeirydd 2017-18 sicrwydd cyffredinol rhesymol ynghylch digonolrwydd y trefniadau archwilio ar gyfer Llywodraeth Cymru a hefyd ar y trefniadau ar gyfer llywodraethiant, rheoli risg a rheolaeth fewnol ar gyfer Llywodraeth Cymru, wedi'i seilio ar yr ystod o sicrwyddau a gyflwynwyd i'r Pwyllgor a'r wybodaeth a ddarparwyd iddo gan swyddogion.

33. Ar sail fy adolygiad o reolaethau mewnol a'r holl wybodaeth arall sydd ar gael imi, rwyf yn fodlon bod y rheolaethau ardrethi annomestig a oedd ar waith yn ystod y flwyddyn yn briodol.

**Llywodraethu Gwybodaeth**

34. Fel Prif Swyddog Cyfrifyddu, rwyf yn gyfrifol am sicrhau bod trefniadau priodol ar waith i gydymffurfio â'r set graidd o fesurau gorfodol gofynnol i ddiogelu gwybodaeth yn Adrannau'r Llywodraeth a'r Gweinyddiaethau Datganoledig Mae'r rhain yn ei gwneud yn ofynnol imi asesu ein risg a sicrhau bod strategaethau lliniaru priodol yn eu lle.

35. Mae rheoli risg ym maes gwybodaeth yn dal yn flaenoriaeth bwysig ar draws Llywodraeth Cymru, ac mae'n nodwedd ar gofrestrau risg adrannol. Nid oedd unrhyw achosion o roi gwybod am golledion gwybodaeth sy'n ymwneud yn benodol â'r cyfrif ardrethi annomestig.

36. Lle bo trydydd partïon yn ymdrin â'n gwybodaeth, mae'n hanfodol inni ddweud wrthynt sut i wneud hynny gan ein bod yn aml yn cadw'r rhwymedigaeth

gyfreithiol dros yr wybodaeth honno hyd yn oed os y trydydd parti sy'n rhyddhau'r wybodaeth honno drwy gamgymeriad. Mae cymalau sicrhau gwybodaeth, sy'n nodi'n glir sut y dylid trin gwybodaeth Llywodraeth Cymru, yn cael eu cynnwys fel arfer safonol mewn contractau.

37. Mae rheoli risg ym maes gwybodaeth yn parhau i gael ei gefnogi gan gydymffurfiad Llywodraeth Cymru ag ISO 27001 – y safon ryngwladol ar gyfer rheoli diogelwch gwybodaeth. Mae hyn yn cynnig sicrwydd bod y systemau TGCh corfforaethol a'r polisïau diogelwch cysylltiedig yn cydymffurfio â gofynion y safon ac yn cyd-fynd â'r gweithdrefnau a argymhellir.

**Shan Morgan**
**Ysgrifennydd Parhaol a Phrif Swyddog Cyfrifyddu**
**Llywodraeth Cymru**

**17 Medi 2018**

**Tystysgrif ac adroddiad annibynnol yr archwilydd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru i Gynulliad Cenedlaethol Cymru**

## Y Dystysgrif ac adroddiad archwilydd annibynnol Archwilydd Cyffredinol Cymru i Gynulliad Cenedlaethol Cymru

### Adroddiad ar yr archwiliad o ddatganiadau ariannol

### Barn

Rwy'n ardystio fy mod wedi archwilio'r datganiadau ariannol ar gyfer Cyfrifon Ardrethi Annomestig (Cymru) Gweinidogion Cymru ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2018 o dan Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988. Mae'r rhain yn cynnwys y Cyfrif Derbynebau a Thaliadau, Datganiad Balansau a'r nodiadau perthnasol, gan gynnwys crynodeb o bolisïau cyfrifyddu arwyddocaol. Mae'r datganiadau ariannol hyn wedi'u paratoi ar sail arian barod o dan Amserlen 8 Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988 a chyfarwyddiadau a wnaed o dan hynny gan Drysorlys ei Mawrhydi.

Yn fy marn i mae'r datganiadau ariannol:

- Yn cyflwyno'r balansau, derbynebau a'r taliadau ar gyfer Cyfrifon Ardrethi Annomestig (Cymru) ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2018 yn gywir; ac
- maent wedi'u paratoi'n gywir yn unol ag Amserlen 8 Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988 a chyfarwyddiadau a wnaed o dan hynny gan Drysorlys ei Mawrhydi.

### Sail ar gyfer y farn

Cynhaliais fy archwiliad yn unol â'r gyfraith berthnasol a'r Safonau Rhyngwladol ar Archwilio yn y DU. Disgrifir fy nghyfrifoldebau o dan y safonau hynny ymhellach yng nghyfrifoldebau'r archwilydd ar gyfer archwilio o fewn adran datganiadau ariannol fy adroddiad. Rwy'n annibynnol o'r corff yn unol â'r gofynion moesegol sy'n berthnasol i fy archwiliad o ddatganiadau ariannol yn y DU, gan gynnwys Safon Foesegol y Cyngor Adrodd Ariannol, ac rwyf wedi cyflawni fy nghyfrifoldebau moesegol eraill yn unol â'r gofynion hyn. Credaf fod y dystiolaeth archwilio yr wyf wedi'i chael yn ddigonol ac yn addas i ddarparu sail ar gyfer fy marn.

### Gwybodaeth Arall

Mae'r Prif Swyddog Cyfrifyddu yn gyfrifol am y wybodaeth arall yn y cyfrif. Mae'r wybodaeth arall yn cynnwys gwybodaeth a gynhwysir yn y cyfrif ar wahân i'r datganiadau ariannol a fy adroddiad archwilydd ar hynny. Nid yw fy marn ar y datganiadau ariannol yn cwmpasu'r wybodaeth arall ac eithrio i'r graddau a nodir yn benodol fel arall yn fy adroddiad, nid wyf yn mynegi unrhyw fath o gasgliad sicrwydd arno.

Mewn cysylltiad â'm harchwiliad o'r datganiadau ariannol, fy nghyfrifoldeb i yw darllen y wybodaeth arall er mwyn nodi anghysondebau perthnasol â'r datganiadau ariannol archwiliedig ac i nodi unrhyw wybodaeth sy'n ymddangos fel

petai'n sylweddol anghywir yn seiliedig ar, neu fel petai'n sylweddol anghyson â’r wybodaeth a gafaelwyd gennyf wrth gynnal yr archwiliad. Os fyddaf yn dod yn ymwybodol o unrhyw gamddatganiadau neu anghysonderau perthnasol, rwy'n ystyried y goblygiadau ar gyfer fy adroddiad.

**Barn ar reoleidd-dra**

Yn fy marn i, ym mhob ffordd berthnasol, mae'r derbyniadau a'r taliadau yn y datganiadau ariannol wedi'u cymhwyso at y dibenion a fwriadwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac mae'r trafodion ariannol a gofnodir yn y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu rheoli.

**Adrodd ar ofynion eraill**

## Barn ar faterion eraill

Yn fy marn i, ar sail y gwaith a wnaed yn ystod fy archwiliad:

- mae'r wybodaeth a roddir yn y Datganiad Llywodraethu ar gyfer y flwyddyn ariannol y paratowyd y datganiadau ariannol ar ei chyfer yn gyson â'r datganiadau ariannol; Ac
- mae'r wybodaeth a roddir yn y Rhagair ar gyfer y flwyddyn ariannol y paratowyd y datganiadau ariannol ar ei chyfer yn gyson â'r datganiadau ariannol ac mae'r Rhagair wedi'i baratoi yn unol â chyfarwyddiadau a gyhoeddwyd gan Drysorlys ei Mawrhydi.

## Materion yr wyf yn adrodd arnynt yn ôl eithriad

Yng ngoleuni gwybodaeth a dealltwriaeth ynglŷn â'r corff a'i amgylchedd a gafwyd yn ystod yr archwiliad, nid wyf wedi nodi camddatganiadau perthnasol yn y Rhagair na'r Datganiad Llywodraethu.

Nid oes gennyf unrhyw beth i’w gyflwyno am y materion canlynol yr wyf yn adrodd i chi os, yn fy marn i:

- nid oes cofnodion cyfrifyddu digonol wedi'u cadw;
- nid yw'r datganiadau ariannol yn cyd-fynd â'r cofnodion cyfrifyddu a'r dychweliadau; neu
- nid wyf wedi derbyn yr holl wybodaeth ac esboniadau yr wyf angen ar gyfer fy archwiliad.

**Adroddiad**

Nid oes gennyf unrhyw arsylwadau i’w gwneud am y datganiadau ariannol hyn.

**Cyfrifoldebau**

## Cyfrifoldebau'r Prif Swyddog Cyfrifyddu ar gyfer y datganiadau ariannol

Fel yr esboniwyd yn llawnach yn y Datganiad o Gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu, mae'r Prif Swyddog Cyfrifyddu yn gyfrifol am baratoi'r datganiadau ariannol yn unol â chyfarwyddiadau Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988 a Thrysorlys ei Mawrhydi a wnaed yn unol â hynny ac ar gyfer rheolaeth fewnol o'r fath y mae'r Prif Swyddog Cyfrifyddu yn credu sy'n angenrheidiol er mwyn gallu

paratoi datganiadau ariannol sy'n rhydd o gamddatganiad perthnasol, boed hynny oherwydd twyll neu wall.

**Cyfrifoldebau'r Archwilydd ar gyfer archwilio'r datganiadau ariannol**
Fy amcanion yw sicrhau sicrwydd rhesymol ynghylch a yw'r datganiadau ariannol yn gyffredinol yn rhydd o gamddatganiad perthnasol, boed hynny oherwydd twyll neu wall, ac i gyhoeddi adroddiad archwilydd sy'n cynnwys fy marn. Mae sicrwydd rhesymol yn sicrwydd lefel uchel, ond nid yw'n warant y bydd archwiliad a gynhelir yn unol â'r Awdurdod Diogelu Annibynnol (DU) bob amser yn canfod camddatganiad perthnasol pan fydd yn bodoli. Gall camddatganiadau ddeillio o ganlyniad i dwyll neu wallau ac fe'u hystyrir yn ddeunydd, pe gellid disgwyl yn rhesymol, yn unigol neu yn eu cyfanrwydd, y iddynt gael dylanwad ar benderfyniadau economaidd defnyddwyr a gymerir ar sail y datganiadau ariannol hyn.

**Cyfrifoldebau am reoleidd-dra**
Mae'r Prif Swyddog Cyfrifyddu yn gyfrifol am sicrhau rheoleidd-dra trafodion ariannol.

Rwy'n gyfrifol am fynegi barn ar a yw'r derbynebau a'r taliadau wedi'u cymhwyso at y dibenion a fwriadwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru a bod y trafodion ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu rheoli.

Mae Archwilydd Cyffredinol Cymru wedi ardystio ac adrodd ar y cyfrifon hyn yn y ffurf y cawsant eu drafftio'n wreiddiol. Cyfieithiad o'r fersiwn Saesneg gwreiddiol yw'r fersiwn hwn. Welsh Government sydd yn gyfrifol am gywirdeb y cyfieithiad, nid yr Archwilydd Cyffredinol.

Adrian Crompton
Archwilydd Cyffredinol Cymru
28 Medi 2018

24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd
CF11 9LJ

## CYFRIF ARDRETHI ANNOMESTIG (CYMRU)

### Cyfrif Derbyniadau a Thaliadau ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2018

| | Nodyn | **2017-18 £000** | **2016-17 £000** |
|---|---|---|---|
| **Derbyniadau** | | | |
| Cyfraniadau oddi wrth yr Awdurdodau Lleol | 2 | 961,043 | 982,962 |
| Cyfraniadau oddi wrth Dalwyr Ardrethi'r Rhestr Ganolog | 7 | 98,287 | 79,235 |
| Derbyniadau Ychwanegol Gros o ganlyniad i ailgyfrifiadau terfynol ar gyfer 2016-17 a'r blynyddoedd blaenorol | 4 | 837 | 3,550 |
| **Cyfanswm Derbyniadau** | | **1,060,167** | **1,065,747** |
| **Taliadau** | | | |
| Symiau a dalwyd i Awdurdodau Derbyn fel y Symiau Dosbarthadwy | 5 | 1,059,000 | 977,000 |
| Symiau a dalwyd i Awdurdodau Bilio o ganlyniad i ailgyfrifiadau terfynol ar gyfer 2016-17 a'r blynyddoedd blaenorol | 4 | 42,920 | 31,098 |
| Symiau a dalwyd i dalwyr ardrethi'r rhestr ganolog o ganlyniad i ailgyfrifiadau terfynol | | 2,700 | 197 |
| **Cyfanswm Symiau a Ddosbarthwyd** | | **1,104,620** | **1,008,295** |
| Diffyg cyfraniadau dros symiau a ddosbarthwyd am y flwyddyn | | **(44,453)** | **57,452** |

### Datganiad o Falansau

| | | **2017-18** £000 | **2016-17** £000 |
|---|---|---|---|
| Balans ar 1 Ebrill | | 50,952 | (6,500) |
| Llai diffyg cyfraniadau dros symiau a ddosbarthwyd am y flwyddyn | | (44,453) | 57,452 |
| Balans ar 31 Mawrth | 8 | **6,499** | **50,952** |

**Shan Morgan**
**Ysgrifennydd Parhaol a Phrif Swyddog Cyfrifyddu**
**Llywodraeth Cymru**

**17 Medi 2018**

Mae'r nodiadau canlynol yn rhan o'r Cyfrif hwn.

## NODIADAU AR Y CYFRIF

1 O dan baragraff 1 o Atodlen 8 o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988, mae'n ofynnol i Weinidogion Cymru baratoi cyfrif, a elwir yn Gyfrif Ardrethi Annomestig (Cymru), ar gyfer pob blwyddyn ariannol yn y ffurf ac ar y sail a gyfarwyddir gan Drysorlys Ei Mawrhydi. Mae'r cyfrif yn cael ei baratoi ar sail arian parod a rhaid iddo gyflwyno yn briodol y derbyniadau a'r taliadau am y flwyddyn ariannol a'r balans a ddelir ar ddiwedd y flwyddyn.

2 Mae'n ofynnol i Awdurdodau Bilio gyfrifo eu cyfraniad ardrethi annomestig am y flwyddyn cyn iddo ddechrau ar sail rhai rhagdybiaethau penodedig (y swm dros dro): paragraff 5(2) ac i wneud eu cyfraniad mewn rhandaliadau rheolaidd yn ystod y flwyddyn (paragraff 5(5)). Daeth y cyfraniadau a gyfrifwyd gan Awdurdodau Bilio ar gyfer 2017-18 i gyfanswm o £983 miliwn.

3 Ar ôl diwedd y flwyddyn, mae'r cyfraniad yn cael ei ail-gyfrifo ar sail gwybodaeth alldro (paragraff 5(6)) a gwneir taliadau addasu i Awdurdodau Bilio neu ganddynt fel y bo'n briodol.

4 Roedd yr addasiadau alldro a wnaed yn cynnwys derbyniadau oddi wrth yr Awdurdodau Bilio o £0.837 miliwn a’r taliadau a wnaed i Awdurdodau Bilio yn £42.8 miliwn.

5 Talodd Gweinidogion Cymru allan y dosbarthadwy o £1,059 miliwn ar gyfer 2017-18, fel y nodir yn Adroddiadau Cyllid Llywodraeth Leol ar gyfer 2017-18. Talwyd y swm dosbarthadwy i'r Awdurdodau Derbyn yn gyfrannol i'w poblogaethau oedolion preswyl.

6 Er bod y cyfrif yn dangos swm llawn cyfraniadau oddi wrth yr Awdurdodau Bilio a'r swm dosbarthadwy, yn ymarferol mae'r symiau hyn yn cael eu debydu yn erbyn ei gilydd a dim ond taliadau net sy'n cael eu gwneud. Mae hyn yn osgoi trosglwyddiadau arian parod diangen rhwng Gweinidogion Cymru ac Awdurdodau Bilio.

7 Ar 31 Mawrth 2018, roedd Cyfrif Derbyniadau'r Rhestr Ganolog yn dangos balans o ddim, am fod cyfanswm y derbyniadau o £98.3 miliwn am y flwyddyn wedi'i ildio i Gronfa Gyfunol Cymru. Roedd Cyfrif Taliadau'r Rhestr Ganolog hefyd yn dangos balans o ddim, am fod y ddau daliad a wnaed yn ystod y flwyddyn o ganlyniad i filiau wedi'u hailgyfrifo'n cael eu gwrthbwyso gan gyllid gan Gronfa Gyfunol Cymru.

8 Mae gwargedau ar ddiwedd y flwyddyn yn cael eu cario ymlaen trwy ddebydu'r cyfrif am y flwyddyn a chredydu cyfrif y flwyddyn ganlynol. Mae unrhyw ddiffyg ar ddiwedd y flwyddyn yn cael eu cario ymlaen i'r flwyddyn ganlynol trwy gredydu cyfrif y flwyddyn bresennol a debydu cyfrif y flwyddyn ganlynol. Diben hyn yw sicrhau, pan gymerir blynyddoedd ynghyd, fod yr holl ardrethi annomestig sy'n cael eu talu i'r pwll yn gyfwerth i'r symiau sy'n cael eu dosbarthu i Awdurdodau Derbyn.